


*Dyfrlliw o Gastell Cricieth gan J.J. Dodd (Arlunydd Gwalia) – Dirgelion ynglŷn ag yntau*

# Y cylchgrawn na ŵyr neb amdano

**Gan RICHARD H. LEWIS**

MEWN RHIFYN diweddar o *Y Casglwr* yr oeddwn ar drywydd arlunydd o'r Gogledd oedd wedi bod yn gryn ddryswch imi am gyfnod; y tro hwn ar drywydd un o'r argraffwyr hynny fu'n gweithio ym Mrynmawr yng Ngwent yr ydwyf, sef un David Stephenson.

Cyn mynd ati i sôn mwy am David Stephenson, fe hoffwn ddweud imi gael ymateb eithaf da i'm hapêl am ragor o wybodaeth am J.J. Dodd a'm bod, erbyn hyn, yn gwybod am fodolaeth rhagor o weithiau Dodd. Gallaf nodi hefyd fod Llyfrgell Genedlaethol Cymru newydd brynu llun o waith Dodd sy'n dangos Castell Cricieth.

Y mae Ifano Jones wedi cysylltu David Stephenson â "the office of 'The Brynmawr Chronicle', Beaufort Buildings, Brynmawr" ac mewn gwirionedd dyna'r cyfan yr wyf yn ei wybod amdano. Mae'n debyg mai mewn siop hen bethau yng Nghroesoswallt y deuthum ar draws David Stephenson am y tro cyntaf a hynny wedi imi brynu cyfrol "Amryw" yno.

Nid oedd y gyfrol yn un arbennig o gwbl ond roedd ynddi un o weithiau Eos Gwynfa ac roedd yn rhad, ac roedd hynny'n ddigon o demtasiwn!

Wedi astudio'r gyfrol yn fanylach sylwais fod ynddi eitem wedi ei hargraffu gan David Stephenson hefyd a dyna ddechrau fy ymwneud ag ef.

* * *

RHIFYN cyntaf cylchgrawn bychan o'r enw *Y Gwyliedydd* oedd yr eitem o Frynmawr a'r dyddiad oedd Medi 1845. Ni chymerais lawer o sylw o'r peth ar y dechrau ond buan y cynyddodd fy niddordeb ynddo wrth imi ddarganfod na allwn ddod o hyd i unrhyw wybodaeth bellach am *Y Gwyliedydd*, David Stephenson na'r *Brynmawr Chronicle* yn unman.

Dim yn Llyfrgell Caerdydd, dim yn y Llyfrgell Genedlaethol, dim yn y Llyfrgell Brydeinig a dim yn Llyfrgell y Gyngres yn Washington hyd yn oed!

Erbyn hyn yr oeddwn yn dechrau meddwl fy mod wedi cael fy mhump ar eitem unigryw ac er holi llu o gyfeillion a chydweithwyr nid wyf wedi cael dim sy'n awgrymu i'r gwrthwyneb. Oes gan selogion *Y Casglwr* unrhyw oleuni pellach?

* * *

WRTH chwilio am ragor o wybodaeth am David Stephenson yr wyf wedi dod ar draws cyfeiriadau ato fel "printer" ym Mrynmawr yng Ngwent, Brycheiniog gynt, yn Nirectory Pigot am 1844 ac yn Nirectory Slater am 1858-9 a 1868. Mae Director Kelly yn cynnwys cyfeiriadau ato hefyd, yn rhifyn 1884 er enghraifft, ond nid yw'n ymddangos yn rhifyn 1891.

Deuthum ar draws tri chyhoeddiad arall sy'n gysylltiedig ag ef hefyd, sef Ymadroddion olaf rhai o'r prif anffyddwyr o wahanol wledydd (1842), Darlith ar egwyddorion anghydffurfiaeth gan Richard Jones (1842) a Coffadwriaeth y Cyfiawn, sef Cofiant y diweddar Parch D. Stephenson ... gan W Jenkins a E. Evans (1851).

## Y GWYLIEDYDD.

RHIF. 1.] MEDI, 1845. [PRIS CEINIOG.

### Y GWYLIEDYDD AT EI DDARLLENWYR.

GYFEILLION HAWDDGAR,—

Trwy diriondeb Rhagluniaeth, a'ch serchawgrwydd chwithau, dyma fi wedi dyfod i'ch gafael; a'm golwg penaf yw eich llesoli, trwy eich cynysgaeddu â phob newydd a wêl fy meistr at ei lygad o werth i mi ei gludo. Bu rhywrai yn sisial yn ddigon cofu fy mod wedi marw cyn dechreu gwylio, a brâf y fath rali a gadwai crach-ddoctoriaid y'ngwyneb y chwedl ddisail; a daenid. Effaith rhagfarn oedd dywedyd felly. Mae fy nghyfeillion yn rhy aml yn awr i mi fethu, nac ychwaith i fy meistr fy ngwadu. Yr wyf yn benderfynol o wylio yn ddyfal y pyrth Capelaidd, llancsion cartrefol a thramor. a chamymddygiadau rhyw walchod a ymgrwydrant yn y capacity o Jackyddion trwy yr ardaloedd. Nid bychain yn eu mysg yw Twm y Deg Capel—Will Pwrs yr Eidion—Will ab Rhêg—a Will ab Milgi—a Robin DDu y Trydydd, ac amryw ereill a arferant hwesteria eu nwyfau yn y Shopau Shadrachaidd. Bwriadwyf ymweled â Thalywain, er mwyn gosod fy hun yn boblogaidd yn mysg y trigolion yno. Byddaf yno fel tarw gwyllt, yn ymweled weithiau ag ardal y fuddaigorddi, lle y mae Mr. Cynefin, neu Cenfin, yn arllwys y llifddorau Shadrachaidd, er adeiladaeth y cyfryw a wrandawant arno. Hefyd, y mae amryw o rith-gyhoeddiadau yn y wlad, pa rai a ddamniant chwaeth ein coleddwyr. "Nid oes eisiau myned o Gaerdydd er mwyn cael ymbrawf têg o hyn; ac oni buasai fod "Seren Gomer" a'r "Haul" genym, diainau y buasai ein chwaeth yn isel iawn fel cenedl." Mae fy meistr yn meddu parch mawr i "Punch," (cyhoeddiad Saesonig,) ac y mae yn addaw dywedyd yn ddystaw bach wrthyf beth yw y pethau mwyaf nodedig sydd ynddo. Yna mi

**AR WERTH**

*John Morris-Jones, A Welsh Grammar 1913: £9.00*

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych, rhif 16, 17, 20: £3.50 yr un.*

*Percy Enderbie, Cambria Triumphans, copi glân heb ei dorri, hanner lledr: £145.*

*Cysyllter â Euros W.Jones, Llangefni 723240.*